



Bwletin 2

Yn Adrodd Perfformiad yr Ysgolion

04/10/16

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i Awdurdodau Lleol a Chonsortia ynghylch adrodd perfformiad yr ysgolion drwy'r bwletin yma. Byddwn yn defnyddio'r bwletin i sicrhau eich bod yn gwybod y diweddaraf am unrhyw benderfyniadau sy'n effeithio ar bolisiâu adrodd ar berfformiad, ac i egluro unrhyw faterion dyrys. A fydddech cystal â rhannu'r wybodaeth hon â'ch ysgolion fel y bo'n briodol. Sylwer: pan fyddwn yn cyfeirio at flwyddyn, am y flwyddyn adrodd rydym yn sôn, ar ddiwedd y flwyddyn academaidd, lle bydd y garfan dan sylw yn cyrraedd diwedd y cyfnod mesur.

### **1 Cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar y 'Capiro 9'**

Ar 30 Mehefin cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg newid i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 sydd am gael eu cyflwyno. Ers hynny, rydym wedi rhoi gwybod am y newid hwn, ond rydym yn ei gynnwys yma eto er gwybodaeth ac er eglurder ichi:

Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi penderfynu na fyddwn bellach yn canolbwyntio ar y Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio a ddiwygiwyd – 'Capiro 9' – fel y prif fesurydd pan gyflwynir y newid hwn. Caiff ei chynnwys yn hytrach fel rhan o'r gyfres gyfan o fesurau Cyfnod Allweddol 4, gan barhau i gynnig y cipolwg ar gyrhaeddiad dysgwyr a chynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol yn eu gwaith hunanwerthuso a'u cynllunio ar gyfer gwella.

#### **Mae hyn yn golygu na chanolbwyntir ar un prif fesur penodol ar lefel ysgolion.**

Dylid defnyddio cyfres o fesuriadau i ystyried perfformiad ysgolion o wahanol safbwyntiau. Bydd y mesurau 'Capiro 9' a 'Lefel 2 Cynhwysol' / Bagloriaeth Cymru o statws tebyg i'w gilydd felly.

Y nod tu ôl i gyhoeddi mesurau perfformiad ar lefel ysgol yw rhoi trosolwg o berfformiad i helpu fel rhan o system hunanwerthuso a gwella ysgolion. Cydnabyddwn mai dim ond man cychwyn yw data perfformiad meintiol wrth ystyried perfformiad ac effeithiolrwydd ysgol o ran sicrhau'r deilliannau gorau i ddysgwyr unigol. Mae Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu sawl mesuriad gwahanol wedi'u torri lawr a'u cyflwyno mewn nifer o ffyrdd. Bydd pa rai o'r rhain a ddefnyddir ac a adroddir arnynt, a pha fath o ddadansoddiad data sydd ei angen, yn dibynnu ar y cwestiynau sy'n cael eu gofyn a'r cyd-destun lleol. Fodd bynnag, wrth baratoi unrhyw adroddiad ar ddata perfformiad ar lefel ysgol, bydd

Llywodraeth Cymru'n cynnwys y canlyniadau ar gyfer y mesurau hyn, o leiaf:

- Lefel 2 Cynhwysol (y mesurau Bagloriaeth Cymru (Sylfaenol a Chenedlaethol) o 2018 ymlaen)
- Trothwy Lefel 2 (2017 yn unig)
- Trothwy Lefel 1 (2017 yn unig)
- Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio (y mesuriad 'Capio 9' diwygiedig o 2017).

Fe barhawn i gyhoeddi'r mesurau hyn gyda'i gilydd yn y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan ar Fy Ysgol Leol ac mewn adroddiadau ysgol cymharol, gan gynnwys Crynodebau o Berfformiad Ysgol Uwchradd.

Bydd y mesurau a'r dadansoddiadau eraill a gaiff eu cynnwys mewn unrhyw ystyriaeth o berfformiad ysgol yn dibynnu ar yr ysgol dan sylw a diben yr adroddiad.

Yn ogystal â'r gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd ar atebolrwydd a diwygio'r cwricwlwm, roedd yr adborth a ddaeth i law oddi wrth nifer o randdeiliaid allweddol y sector yn dynodi bod Mesur Capio 9 wedi dechrau lleihau dewisiadau'r cwricwlwm mewn rhai ysgolion i bob golwg, ac nad yw'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch y cwricwlwm ar sail y pwyslais ar y mesur unigol yma er budd y dysgwyr bob amser. O bryder arbennig o'i osod ochr yn ochr â'r cyfarwyddyd sy'n cael ei ddatblygu gan Dyfodol Llwyddiannus yw'r ffaith bod ffocws ysgolion ar gynllunio cwricwlwm wedi ei seilio ar bwysigrwydd un mesur yn unig. Mae'r dull diwygiedig yn gydnaws â'r argymhellion a welir yn Dyfodol Llwyddiannus, a bydd yn cael effaith gadarnhaol trwy ehangu dewisiadau'r cwricwlwm.

Mae copi o ddatganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ar gael yma:

<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/58393509/?lang=cy>

## **2 Gofynion Llythrennedd a Rhifedd wrth fesur perfformiad**

- a) Yn dilyn adolygiad gan Gymwysterau Cymru, mae CBAC wedi cyhoeddi yn ddiweddar bod y TGAU mathemateg rhifedd newydd a'r TGAU mathemateg newydd yn bodloni gofynion rhifedd y dyfarniad Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (dim ond y TGAU mathemateg rhifedd newydd a dderbyniwyd cyn hyn).

Yn sgil hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi diwygio gofynion rhifedd y mesur Lefel 2 gynhwysol a'r dangosydd mathemateg yn 2017 i gyd-fynd â'r meini prawf ar gyfer dyfarniadau Bagloriaeth Cymru (ac felly'r mesurau a weithredir o 2018 ymlaen). Bydd hyn yn sicrhau dull mwy cyson o fesur perfformiad wrth i ni newid i ddefnyddio mesurau Bagloriaeth Cymru. Bydd caniatáu i unrhyw un o'r TGAU mathemateg newydd i gyfri fel y gofyniad rhifedd (cymrir y canlyniad orau lle dyfernir dau gymhwyster i'r dysgwr) yn rhoi diffiniadau cyfatebol agosach o'r mesurau hyn a bydd yn mesur cynnydd yn well ar draws

Ilwyfan mesur perfformiad sydd yn symud. Bydd yn darparu rhywfaint o gysondeb ychwanegol gydag amser wrth i ni weithredu nifer o newidiadau i fesurau perfformiad rhwng 2016 a 2018.

Nid yw hyn yn effeithio ar ddiffiniadau'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio ddiwygiedig (Capió 9), lle ceir eisoes elfen ar gyfer pob un o'r cymwysterau mathemateg newydd yma. Mae 'Capió 9' yn rhoi pwysigrwydd ychwanegol ar gyrhaeddiad Mathemateg a Mathemateg-Rhifedd TGAU a dau gymhwyster TGAU yn y gwyddorau (nai llai .cymwysterau cyfwerth yn 2017).

- b)** Nid oes newidiadau pellach wedi'u gwneud i ofynion llythrennedd mesurau perfformiad o 2017. Dim ond TGAU Cymraeg Iaith neu Saesneg Iaith newydd fydd yn cyfrannu tuag at elfennau penodol llythrennedd o fesuriadau perfformiad o 2017 ymlaen.

Gwnaed yr argymhelliad i roi'r pwyslais ar Gymraeg iaith neu Saesneg iaith yn lle derbyn Saesneg Llên neu Cymraeg Llên gan yr Adolygiad Cymwysterau ar ôl proses ymgynghori eang. Nodwyd y rheswm dros y newid hwn yn adran 6 o adroddiad yr Adolygiad o Gymwysterau y gellir ei weld yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/121127reviewofqualificationscy.pdf>.

Mae'r rhesymau am hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â'r argymhellion i ddiwygio TGAU Cymraeg iaith a Saesneg iaith. Mae'r rhain yn rhoi mwy o bwyslais ar sgiliau llythrennedd y dysgwyr, gan ddatblygu ar ddisgwyliadau ynghlwm wrth y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol. Derbyniodd y Gweinidogion yr argymhellion hyn, ac ar hyn o bryd nid oes bwriad symud o hyn drwy newidiadau o ran mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4. Rydym yn ymwybodol o bryderon ynghylch ysgolion o bosib yn symud i ffwrdd o Gymraeg Llên a Saesneg Llên. Dylai ysgolion barhau i dywys dysgwyr tuag at y cymwysterau cydnabyddedig sy'n diwallu eu hanghenion orau.

Ni fydd cymwysterau Llên yn cyfrif tuag at ofynion llythrennedd penodol mesurau o 2017 ond gallant gyfrif tuag at y cydrannau nad ydynt yn benodol i'r bwnc.

### **3 Newidiadau diffiniadol eraill i fesurau perfformiad yn 2016**

#### **a) Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS)**

Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen EOTAS, er mwyn parhau â'r ymagwedd gynhwysol tuag at addysg yng Nghymru, ac er mwyn ffocysu'n well ar ddysgwyr EOTAS, y dylem gynnwys cyrhaeddiad disgyblion EOTAS yng Nghyfnod Allweddol 4 yng nghanlyniadau awdurdod lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Bellach mae gennym ddata cadarn ar gyfer nifer o flynyddoedd o ran disgyblion EOTAS. Byddwn felly'n gwneud y newid hwn o 2016 ymlaen. Bydd hyn yn ddull mwy teg a chyson o weithredu ar draws yr holl Awdurdodau Lleol, gan ystyried y dulliau amrywiolgyda darpariaeth EOTAS.

## **b) Ysgolion annibynnol**

Ni chaiff data perfformiad ar gyfer ysgolion annibynnol ei gynnwys yn y ffigurau ar gyfer Cymru o 2016 ymlaen oherwydd y rhesymau a ganlyn:

Yn y gorffennol, maent wedi eu cynnwys yn y data cenedlaethol yn unig. Cyn i ddisgybl gyrraedd Cyfnod Allweddol 4, dim ond yn achlysurol y darperir data asesu a data lefel y disgybl i Lywodraeth Cymru oddi wrth ysgolion annibynnol, a hynny ar sail wirfoddol gan unrhyw un ysgol, ac felly dim ond darlun rhannol a gawn o gyrhaeddiad o fewn y sector yma.

Ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, nid oes unrhyw ddata cyd-destunol ar ysgolion annibynnol ar gael i ni fedru eu dadansoddi. Heb ddata'r grŵp blwyddyn, felly, pan fyddwn yn symud i sail carfan blwyddyn 11 ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 ar gyfer ysgolion a gynhelir, bydd angen i ni barhau i ddefnyddio'r sail oedran ar gyfer canlyniadau dysgwyr mewn ysgolion annibynnol.

Mae llawer o ysgolion annibynnol yn dewis darparu cymwysterau nad ydynt wedi'u cymeradwyo/dynodi gan ein corff rheoleiddio, ac felly nid ydynt wedi eu cynnwys o fewn ein mesurau, a gallai'r niferoedd yma gynyddu wrth i ni symud tuag at gael un fanyleb ar gyfer y cymwysterau diwygiedig a gymeradwywyd/ddynodwyd i'w defnyddio yng Nghymru. O ganlyniad, bydd cyfran uchel o ddysgwyr mewn ysgolion annibynnol na fydd yn cyrraedd ein mesurau trothwy ac a fydd yn tangyflawni parthed sgoriau pwyntiau. Heb ddata pellach ni fydd gennym ddarlun cyflawn o ehangder a safon y ddarpariaeth yn y sector yma.

Mae gwybodaeth bellach a modelau ar effeithiau'r newidiadau hyn i'r set ddata ar gael mewn erthygl ystadegol a gyhoeddwyd ar 21 Gorffennaf 2016, a ymgynghorodd ar y newidiadau hyn. Gallwch weld yr erthygl yma (dyddiedig 21 Gorffennaf): <http://gov.wales/statistics-and-research/?topic=Education+and+skills&page=3&lang=cy>.

## **4 Pwyntiau Perfformiad ar gyfer Eifen Graidd Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2016**

Y llynedd, dyrannwyd pwyntiau safonol ar gyfer elfen graidd cymhwyster Bagloriaeth Cymru lle roedd dysgwr wedi cyflawni'r meini prawf i gyd ar gyfer y dyfarniad cyflawn. Roedd hyn hefyd yn wir ar lefel uwch heb i raddiad y craidd cael ei gwahaniaethu o gwbl.

Gan mai dyma'r flwyddyn olaf, ar y cyfan, y caiff etifeddiaeth y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ei gynnwys mewn ffigurau perfformiad, er mwyn cysondeb byddwn yn parhau â'r dull hwn, hynny yw, dim gwahaniaethu i raddio o fewn y craidd lefel uwch.

I gadarnhau, dyma'r pwyntiau a roddwyd ar gyfer y craidd ar bob lefel yn 2015 ac

a gaiff eu rhoi eto yn 2016:

- Uwch – 63 pwynt
- Canolradd – 46 pwynt
- Lefel sylfaen – 25 pwynt

O'r flwyddyn nesaf ymlaen gennym Gymhwyster Bagloriaeth Cymru newydd, mwy trwyadl gydag elfennau o'r wobr yn gymwysterau cymeradwy eu hunain, gyda strwythur graddio a gwerthoedd cyfrannu mesur perfformiad annibynnol cysylltiedig. Gellir dod o hyd i'r gwerthoedd hyn ar Cymwysterau yng Nghymru (QiW) (<https://www.qiw.wales/?lang=cy> – y gronfa ddata ar-lein o'r holl gymwysterau cydnabyddedig/dynodedig yng Nghymru) ar gyfer pob un cymhwyster, gan gynnwys yr amryw Dystysgrifau Her Sgiliau.

Os oes gennych ymholiadau pellach am y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, e-bostiwch [14-19@cymru.gsi.gov.uk](mailto:14-19@cymru.gsi.gov.uk). Gellir e-bostio ymholiadau am fesuriadau perfformiad at [ims@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ims@cymru.gsi.gov.uk) fel arfer.

**5 Cymwysterau TGAU a Chymwysterau nad ydynt yn TGAU**

Lle defnyddir cap ar system gywerthedd cymwysterau TGAU mewn mesurau trothwy o 2017, bydd gwahaniaeth mewn math y cymhwyster, hynny yw ai TGAU ydyw ai peidio. Felly:

- Caiff cymwysterau TGAU galwedigaethol eu cyfrif fel TGAU
- Gyda chymwysterau nad ydynt yn gymwysterau TGAU sy'n cael eu disgrifio fel cymwysterau cyffredinol, defnyddir y cap ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU a all gyfrannu.
- Fel cymwysterau nad ydynt yn TGAU, bydd y cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau yn amodol ar y cap ar gymwysterau nad ydynt yn TGAU a all gyfrannu.

**6 Paramedrau Oriau Dysgu Dan Arweiniad (ODDA)**

Yn 2017 bydd y paramedrau ar gyfer cymwysterau sydd gyfwerth â 0.5 TGAU yn newid. Golyga hyn y bydd rhai cymwysterau sydd ar hyn o bryd gyfwerth â 0.5 TGAU yn symud i'r dosbarth cywerthedd 0.25, a bydd rhai cymwysterau sydd ar hyn o bryd gyfwerth ag 1 TGAU, o hynny ymlaen, gyfwerth â 0.5 TGAU. Mae'r tabl isod yn crynhoi'r newidiadau.

Cywerthedd TGAU	Paramedrau ODDA	
	2016	2017 ymlaen
0.25	1-44	1-59
0.5	45-89	60-119
1	90-144	120-144
2	145 ac uwch	145 ac uwch

## **7 Pa gymwysterau sy'n cyfrif ym mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4?**

Yn aml gofynnir i ni sut mae'r mathau canlynol o gymwysterau yn cyfrannu tuag at fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4.

### **a) Cymwysterau Lefel Mynediad**

- Mae'r rhain yn is na'r cymwysterau Lefel 1 ar y Fframwaith Credydau a Chymwysterau i Gymru (FfCChC)
- Ni fyddant yn cyfrif tuag at fesurau trothwy Lefel 1 (Bagloriaeth Cymru (Sylfaen) o 2018 ymlaen) na throthwy Lefel 2 (Bagloriaeth Cymru (Cenedlaethol) o 2018 ymlaen),
- Gallant gyfrannu at fesurau'r Sgôr Pwyntiau wedi'i Chapio.

### **b) Cymwysterau Lefel 3**

- Gall cymwysterau Lefel 3 gyfrif tuag at fesurau Cyfnod Allweddol 4 ar yr amod eu bod wedi eu cymeradwyo/dynodi i'w darparu ar gyfer dysgwyr cyn-16 oed.

### **c) Sgiliau Hanfodol Cymru**

- O 2017 ymlaen, ni fydd y cymwysterau hyn mwyach yn cael eu cymeradwyo ar gyfer darpariaeth cyn-16 oed
- O 2017 ymlaen, ni fyddant ychwaith yn cyfrif ym mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4.

### **ch) Cymwysterau sydd gyfwerth â rhan o TGAU**

- Gall cymwysterau sydd gyfwerth â llai nag 1 TGAU gyfrannu o hyd at y mesurau trothwy (Lefel 2 cynhwysol, Lefel 2 a Lefel 1) a'r Sgôr pwyntiau wedi'i Chapio, a gellir cyfrifo cyfuniad i gael y cyfanswm a ddymunir.
- Mae CBAC wedi cadarnhau na all cymwysterau o'r fath gyfrannu at ddyfarniad y Cymwysterau Bagloriaeth Cymru. Gellir cael rhagor o wybodaeth am y meini prawf ar gyfer Cymwysterau Bagloriaeth Cymru yn: <http://qualificationswales.org/qualifications/welsh-baccalaureate/?lang=cy&> ac o fewn manylebion Cymwysterau Bagloriaeth Cymru CBAC.

## **8 Cymwysterau yng Nghymru (QiW) (www.qiw.wales – y gronfa ddata ar-lein o'r holl gymwysterau cydnabyddedig/dynodedig yng Nghymru)**

Lansiwyd QiW ym mis Ebrill gan Cymwysterau Cymru.

Mae'n disodli'r hen system DAQW ac mae'n cyhoeddi manylion yr holl gymwysterau cydnabyddedig/dynodedig sy'n cael eu darparu yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â Cymwysterau Cymru i gynnwys gwybodaeth mesur perfformiad cysylltiedig ar gyfer y cymwysterau yn Cymwysterau yng Nghymru. Dyma'r lle cyntaf i droi am wybodaeth perfformiad

ynglŷn â chymwysterau.

Mae data mesurau perfformiad 2016 wedi'i ddiweddarau'n ddiweddar, gan lenwi bylchau a chywiro rhai camgymeriadau. Gallech wirio gwybodaeth cymwysterau eto nawr os hoffech chi.

Mae rhai enghreifftiau o ddiddymu hen gymwysterau o'r hen Gronfa Ddata DAQW cyn eu trosglwyddo i QiW er eu bod o fewn eu cyfnod ardystio o hyd. Cysylltwch â ni os cewch drafferth i ddod o hyd i gymhwyster a ddyfarnwyd i ddysgwyr ar QiW a'ch bod yn meddwl y gallai fod yn un o'r rhain.

Rydym yn gweithio ar arddangos gwerthoedd cyfrannu ar gyfer gwerthoedd cyfrannu 2017 ymlaen, gan gynnwys dangos yn glir sut y bydd cymwysterau'n cyfrif tuag at yr amryw fesuriadau newidiol mewn gwahanol flynyddoedd. Caiff diweddariad hwn ei ryddhau eybyn mis Tachwedd. Ni fydd set ddata arall ar gael tan hynny. Fodd bynnag, os ydynt dal yn gydnabyddedig / dynodedig ac o fewn y cyfnod ardystio, bydd cymwysterau'n cyfrif â'r un gwerthoedd **oni bai ein bod wedi nodi bod newidiadau yn digwydd yn 2017**. Mae'r newidiadau hyn fel a ganlyn:

- Nid yw Sgiliau Hanfodol Cymru na Sgiliau Allweddol Ehangach bellach yn cael eu cymeradwyo i'w darparu cyn-16 oed; a
- Bydd cymwysterau gyda gwerth oriau dysgu dan arweiniad cymedrig o hyd at 59 yn gyfwerth â 0.25 TGAU, ac felly bydd 60 hyd at 119 o oriau dysgu dan arweiniad cymedrig yn gyfwerth â 0.5 TGAU, bydd 120 hyd at 144 o oriau dysgu dan arweiniad cymedrig yn gyfwerth â 1 TGAU a bydd pob cymhwyster â 145 o oriau dysgu dan arweiniad cymedrig neu fwy yn gyfwerth â 2 TGAU (gweler adran 6 uchod). Lle caiff cywerthedd TGAU ei leihau ar gyfer cymwysterau yn 2017 ymlaen, caiff y pwyntiau sy'n atodedig i raddau eu lleihau i gyd-fynd â hynny.

## **9 Gofynion gosod targedau**

Wele isod grynodedeb o'r wybodaeth a nodir mewn llythyr a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru yr wythnos ddiwethaf:

### **a) Cyfnodau Allweddol 2 a 3**

Ar 21 Mai, aethom ati i ysgrifennu at y sector, yn dilyn penderfyniad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i dynnu'n ôl y penderfyniad i newid y lefelau disgwylidig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3 ac, felly, ddiddymu'r gofyniad i ddiwygio'r rheoliadau gosod targedau, er mwyn cynyddu'r lefel gyrrhaeddiad ddisgwylidig ar gyfer dysgwyr Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg a Mathemateg ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3, o Haf 2018 ymlaen, hynny yw bydd gofynion gosod targedau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn parhau fel y maent yn y rheoliadau. Mae mwy o wybodaeth ynghylch y penderfyniad hwn yma:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/160714-ks2-3-assessment->

[requirements-cy.pdf](#).

## **b) Cyfnod Allweddol 4**

Yn dilyn y penderfyniad diweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch y newidiadau arfaethedig i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 dros y blynyddoedd nesaf (gweler eitem 1), ac er ein bod yn ystyried goblygiadau manwl y diwygiadau i gwricwlwm a threfniadau asesu yng Nghymru, mae diwygiadau i drefniadau gosod targedau ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 wedi'u gohirio.

Bydd angen i ysgolion barhau i osod targedau rhagnodedig ar gyfer cyrhaeddiad yn erbyn y Trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg / Saesneg a Mathemateg (Lefel 2 cynhwysol) yn ogystal â Throthwy Lefel 1. Gan na fydd adrodd ar y Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) o 2017, a chan na gesglir y ffigur am ddisgyblion sy'n gadael heb gymwysterau, ni fydd gofyniad i ysgolion gosod y targedau hyn yng Nghyfnod Allweddol 4 fel o'r blaen. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ysgolion barhau i osod isafswm o dri tharged lleol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau a bennir drwy hunanwerthuso, ystyried setiau data craidd a gwybodaeth gymharol arall. Dylai'r targedau hyn adlewyrchu blaenoriaethau cenedlaethol fel y maent yn gweithredu yn ôl i ysgolion unigol.

Er mai datrysiad dros dro yw hyn, siŵr o fod bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i ddarparu data Lefel 2 cynhwysol a Trothwy Lefel 1 i ysgolion am yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd data ar gyfer y mesurau hyn a gaiff eu disodli'n fuan (gan gynnwys y Dangosydd Pynciau Craidd) yn cael eu darparu i ysgolion a byddant yn parhau i fod yn y Setiau Data Craidd Cymru Gyfan. Fe barhawn i ddarparu'r data (o 2018 yn ogystal â'r data cyrhaeddiad Cymhwyster Bagloriaeth Cymru) i sicrhau parhad ar gyfer prosesau hunanwerthuso effeithiol ac ar gyfer gosod targedau ystyrion wrth newid i'r mesurau newydd.

### **Noder:**

- o 2016 mae targedau Cyfnod Allweddol 4 yn cyfeirio at ddisgyblion Blwyddyn 11 (o'r blaen, roedd targedau Cyfnod Allweddol 4 yn cyfeirio at ddisgyblion a oedd yn 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd)
- mae nifer o newidiadau i werthoedd cyfrannu rhai cymwysterau sy'n gymwys o 2016 a 2017
- mae newidiadau i Drothwy Lefel 1 a Lefel 2 cynhwysol yn gymwys o 2017.

Gellir gael rhagor o wybodaeth am y newidiadau hyn i fesuriadau perfformiad ysgol ar ein gwefan:

<http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/schooldata/using-school-information-and-reporting-on-performance/?skip=1&lang=cy>



## **10 Anghysondebau wrth i ni symud i garfan blwyddyn 11 yng Nghyfnod Allweddol 4**

O ganlyniad i'r newid i ddefnyddio carfan blwyddyn 11 yn hytrach na dysgwyr 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn, efallai y gwelwn rai anghysondebau dros y ddwy flynedd nesaf wrth i ni symud o un sail i sail arall. Efallai y gwelwn er enghraifft, y canlynol yn digwydd yn ystod 2015 a 2016:

### **a) Dysgwyr wedi'u hepgor y ddwy flynedd**

Pan fydd dysgwr yn cael ei addysgu yng ngrŵp blwyddyn 11 yn 2015 ond yn 14 oed (mae'r disgybl o flaen ei grŵp blwyddyn naturiol):

- ni fydd canlyniadau'r dysgwr yn cyfrif y flwyddyn hon am nad yw'n 15 oed.
- ni fydd canlyniadau'r dysgwr yn cyfrif y flwyddyn nesaf ychwaith am na fydd ym mlwyddyn 11.
- Ni fydd canlyniadau'r dysgwr byth yn cael eu cyfrif yn ein hystadegau swyddogol.

### **b) Dysgwyr wedi'u cyfrif y ddwy flynedd**

Pan fydd dysgwr yn cael ei addysgu yng ngrŵp blwyddyn 10 ond yn 15 oed (mae'r dysgwr y tu ôl i'w grŵp blwyddyn naturiol):

- bydd canlyniadau'r dysgwr yn cyfrif yn 2015 am ei fod yn 15 oed.
- byddant yn cyfrif yn 2016 hefyd oherwydd bydd ym mlwyddyn 11 erbyn hynny.
- bydd canlyniadau'r dysgwr yn cael eu cyfrif ddwy flynedd yn olynol.

Bydd y sefyllfaoedd penodol hyn ond yn digwydd yn ystod y flwyddyn bontio. O 2016 ymlaen fodd bynnag, pan fydd dysgwr yn ail-wneud blwyddyn 11, bydd ei ganlyniadau yn cael eu cyfrif mewn blynyddoedd olynol.

I helpu ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia i fesur effaith y newid o ran carfan, byddwn yn darparu setiau data ychwanegol drwy Awdurdodau Lleol gyda mesurau allweddol ar gyfer 2016 a gyfrifir ar sail 15 oed, yn fuan ar ôl cyhoeddi'r data Cyfnod Allweddol 4 ym mis Rhagfyr eleni.

**Mae croeso ichi anfon e-bost atom yn [ims@cymru.gsi.gov.uk](mailto:ims@cymru.gsi.gov.uk) os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch adrodd ar berfformiad ysgolion.**